**Ysgol Gymraeg Gwenffrwd**

# CYNGOR YSGOL GWENFFRWD

Annwyl ddisgyblion,

Unwaith eto mae'r amser wedi cyrraedd i ni etholi aelodau newydd i'r Cyngor Ysgol. Mae'r Cyngor yn ran annatod o fywyd ysgol, felly mae'n hanfodol ein bod yn ethol aelodau brwdfrydig a chall sydd yn barod i weithio a gwneud penderfyniadau pwysig.

Cyn unrhyw etholiad, teimlwn ei bod yn bwysig eich bod yn derbyn gwybodaeth pellach am bwysigrwydd a phwrpas y Cyngor Ysgol.

## Pam cael Cyngor Ysgol?

- Rhoi cyfle i ddisgyblion roi barn ar beth sy'n digwydd yn yr ysgol
- Rhoi cyfle i ddisgyblion gymryd rhan mewn penderfyniadau am beth sy'n digwydd yn yr ysgol
- Creu gwell dealltwriaeth rhwng disgyblion, athrawon ac aelodau eraill o staff
- Sicrhau bod y disgyblion yn cael llais ac yn teimlo fel bod eu pryderon yn cael eu cymryd o ddifrif
- Cyfle i ymarfer sgiliau hanfodol e.e. cydweithio mewn grŵp, gwneud penderfyniadau a chynrychioli eraill
- Gwneud newidiadau pwysig e.e. trefniadau amser chwarae, bwyta'n iach

## Rôl y Cyngor Ysgol

- Arwain trafodaethau'r Cyngor Dosbarth
- Cofnodi unrhyw materion sydd yn codi a'u cyflwyno yng nghyfarfodydd y Cyngor Ysgol
- Adrodd yn ôl i'r dosbarth ar yr hyn a gafodd ei drafod a'i benderfynu yng nghyfarfodydd y Cyngor Ysgol

## Beth sy'n gwneud Cynghorydd effeithiol?

- Sgiliau gwrando da
- Cyfathrebu yn hyderus ag eraill
- Arwain drwy esiampl
- Cynnig syniadau call ac addas er mwyn sicrhau Cyngor Ysgol effeithiol
- Siarad Cymraeg pob amser

Oes gennych chi ddiddordeb mewn bod yn rhan o'r Cyngor? Os oes gennych, bydd angen i chi ysgrifennu a chyflwyno maniffesto i'ch dosbarth erbyn ********. Bydd angen i chi egluro pam mai chi yw'r person gorau i gynrychioli eich dosbarth a beth yw eich bwriad/syniadau i ddatblygu'r Cyngor ymhellach.

Edrychwn ymlaen i glywed eich maniffesto – pob lwc!

Mrs Laura Edwards a Miss Angharad Griffiths

**Ysgol Gymraeg Gwenffrwd**

# CYNGOR YSGOL GWENFFRWD

Dear Student,

The time has come once again for us to elect new members to the School Council. The Council is an integral part of school life, therefore it is important that we elect energetic and sensible students that are ready to work and make important decisions.

Before any election, we feel it is important that you receive further information about the purpose and importance of the School Council.

## Why have a School Council?

- Give students the opportunity to voice their opinions about school life
- Give students the opportunity to make decisions about the school
- To gain a better understanding between students, teachers and other members of staff
- Ensure that children have a voice and that their concerns will be taken seriously
- An opportunity to practise essential skills i.e. teamwork, important decision making and representing others
- To make important changes i.e. playtime arrangements and healthy eating

## Rôle of the School Council

- Be responsible for Class Council
- To note and present any matters matters that arise to the School Council
- Report back to the class about decisions that were made and discussed at the School Council meetings

## What makes and effective School Council member?

- Good listening skills
- Communicate effectively and confidently with others
- Lead by example
- Propose sensible and appropriate ideas to ensure we have an effective School Council
- Speak Welsh at all times

Have you got an interest in being part of the School Council? If so, you will need to write and present a manifesto to your class by *******. You will need to explain why you feel you're the best person to represent your class and what are your intentions/ideas to develop the School Council further.

We look forward to hearing your manifesto – good luck!

Mrs Laura Edwards and Miss Angharad Griffiths